tafod elái

MAWRTH 2016

Rhif 305

Pris 80c

## Grammy i Amy



Yn 58ed Seremoni Cyflwyno Gwobrau Grammy yn Los Angeles ar 15 Chwefror daeth cân a gyd-ysgrifennwyd gan Ed Sheeran ac Amy Wadge i'r brig yng nghategori Cân y Flwyddyn. Roedd Amy Wadge yn falch dros ben wrth dderbyn y wobr gyda Ed Sheeran am y gân "Thinking Out Loud". Cyflwynwyd y wobr gan Stevie Wonder.

Mae Amy a'i gŵr, Alun ap Brinley, a'r plant yn byw ym Mhentre'r Eglwys ac roedd dathlu mawr yn eu cartref wrth iddynt aros lan yn hwyr y nos i weld y seremoni ar y teledu.

Cychwynnodd y bartneriaeth rhwng Ed Sheeran ac Amy pan oedd Ed yn 17 oed ac maent wedi ysgrifennu nifer o ganeuon gyda'i gilydd. Ysgrifennwyd y gân ar y soffa yn nhŷ Ed ar ôl cael cinio. Aeth y gân ymlaen i aros yn siart 40 uchaf Prydain am 40 wythnos a cyrraedd rhif un yn Nhachwedd 2014. Mae'r gân hefyd wedi cael llwyddiant rhyngwladol.

Roedd yn noson arbennig i Amy i gael bod yng nghanol gymaint o sêr y byd pop ac mewn seremoni mor enfawr yng Nghanofan Staples, Los Angeles. Daeth adref i'w theulu i ddathlu ei phen-blwydd yn 40 oed.



## Parti Ffarwel Helen Prosser!

Nos Wener, Ionawr y 29ain daeth llu o gyfeillion a chyd-weithwyr Helen ynghyd ym mwyty Stilts ar gampws Prifysgol De Cymru i dalu teyrngedau ac i ddymuno'n dda iawn iddi a hithau'n cychwyn ar bennod newydd gyffrous yn ei gyrfa ac yn wir ym myd Cymraeg i Oedolion. Ei theitl newydd bydd Cyfarwyddwraig Strategol y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Llywiwyd y noson gan Colin Williams. Cafwyd eitemau cerddorol - arwyddocaol - gan Barti'r Efail; talodd William Callaway, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chlerc y Llywodraethwyr deyrnged gynnes i Helen gan ddiolch iddi am y cyd-weithio rhwydd fu rhyngddynt dros y blynyddoedd. Ymunodd y ffrindiau oll i gyd-ganu geiriau pwrpasol Siwan ar dôn Calon Lân. Cyflwynodd y Dr Emyr Davies gyfres o englynion celfydd i Helen oedd yn crisialu ei hymrwymiad, ei brwdfrydedd, ei hanwylder a'i gofal o bawb. Maent werth eu darllen ac yn wir eu trysori. Cyflwynwyd anrhegion i Helen a thusw hyfryd o flodau. Gwelir ei cholli yn ddirfawr ar goridorau'r Brifysgol ond bydd ei hernes byw byth!



## Wynne Evans ar waith yn Edwards Coaches



Dewisodd Wynne Evans Cwmni Edwards Coaches, Llanilltud Faerdref, yn un o dri chwmni i gael gweithwyr ar gyfer côr arbennig i'w gyfres **Wynne Evans ar Waith.** Mae'r côr o 30 o leisiau oedd heb gael profiad o ganu o'r blaen yn cynnwys gweithwyr o Dŵr Cymru, Trenau Arriva Cymru ac Edwards Coaches a bu Wynne yn eu hyfforddi ar gyfer gwneud record a pherfformiadau cyhoeddus.

Un o sêr y gyfres yw'r gyrrwr bws o Edwards Coaches, Eurwyn George, 62 oed, sydd yn wreiddiol o Bencader, Sir Gâr, ond sydd wedi byw yn Aberdâr ers wyth mlynedd, gyda'i wraig Geraldine. Yn ystod y gyfres mae Eurwyn yn rhoi gwers gyrru bws i'r tenor enwog a thiwtor y côr Wynne Evans, yn ogystal â mynd am dro gyda'r canwr, sydd yn serennu fel *Gio Compario* yn yr hysbysebion *GoCompare,* i draeth Pen-bre gyda'i ddau gi bach, Suzie a Spencer.

Meddai Eurwyn, "Dwi wedi mwynhau'r profiad a chael llawer o eiriau braf gan ffrindiau a theulu Edwards Coaches. Mae pawb yn hoffi'r olygfa o Wynne a minnau ar y bws – mae e bron fel sgets gomedi!

"Roedd hi'n wych bod yn rhan o gôr **Wynne Evans ar Waith** - roedden ni fel teulu bach erbyn y diwedd. Rydyn ni'n bwriadu cwrdd lan eto rywbryd - falle ar ôl cwpwl o ddrincs byddwn ni'n canu eto! Roedd Wynne yn help mawr ac yn athro da, doedd e byth y colli ei dymer. Gobeithio y caf i'r fraint o ganu gyda fe unwaith eto!"

**'Cân Heb ei Chanu'** yw'r gân elusennol sy'n cael ei pherfformio gan y côr. Cafodd y gerddoriaeth ei hysgrifennu gan y cyfansoddwr adnabyddus Robat Arwyn, a'r geiriau gan Hywel Gwynfryn. Mae ar gael i'w phrynu nawr oddi ar siopau iTunes, Amazon a Google Plus.

# TONYREFAIL

Gohebydd Lleol:
Helen Prosser
671577/prosserh@btinternet.com

**Pwyllgor Apêl Eisteddfod yr Urdd 2017**
**Dyddiadau i'ch dyddiadur**

Isod ceir poster ar gyfer ein ddigwyddiadau nesaf.

Noson Pitsa a Rasys Ceffylau – bydd dewis o 5 pizza: Caws a thomato, Hawaiian, Chicken Feast, American Hot, Vegi Supreme. Rhowch eich dewis i Helen erbyn dydd Llun, 11eg Ebrill os gwelwch yn dda.

Hefyd ar 20ed Mai bydd Noson bingo dwyieithog – Neuadd bingo oedd y Savoy ar un adeg ac felly gobeithir bydd pobl Tonyrefail yn dod ma's i hel atgofion a chodi arian i Eisteddfod yr Urdd ar yr un pryd.

Hefyd, mae Pwyllgor Tonyrefail a Gilfach Goch yn gwerthu tocynnau yn ein hardal ni ar gyfer gig Bryn Fôn a Band Nantgarw yn Neuadd Dowlais, Crown Hill ar nos Sadwrn, 12 Mawrth. Cysylltwch os byddwch chi eisiau un.

**Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail**

Erbyn hyn, mae'r ysgol wedi cael gwybod y bydd 34 o blant yn colli eu lle am ddim ar y bws ysgol o fis Medi ymlaen ac yn gorfod talu £1.50 y dydd neu 50c os ydyn nhw'n derbyn cinio ysgol yn rhad ac am ddim. Mae'r plant hyn i gyd yn byw yn ardal Coed-Elai neu'r Gilfach Goch ac felly'n gallu cerdded yn hawdd i ysgol Saesneg ei chyfrwng. Bydd y llywodraethwyr yn cwrdd yn fuan â Mick Antoniw i bwysleisio pa mor andwyol y gall y polisi trafnidiaeth hwn fod i addysg Gymraeg yn Nhonyrefail ac ar draws y sir.

**Darllenwyr Ifanc**

Wrth ddosbarthu Tafod Elái y mis diwethaf, ces i fy hebrwng i'r drws gan Marged (Thomas) a phan aeth hi'n ôl i'r lolfa, dyma'r olygfa oedd yn ei hwynebu – ei merch fach Mali yn cael blas ar ddarllen y Tafod.







## Ysgol Gwaelod y Garth



Llongyfarchiadau i Milly Ivins, Blwyddyn 6, ar ennill cystadleuaeth Ysgolion Yn Erbyn Hiliaeth. Mae llun Milly yn cynrychioli mis Ionawr ac i'w weld ar ffurf poster o amgylch y ddinas. Enillodd siec o £150 i'r ysgol ac mae wedi dewis ei wario ar byst pêl-rwyd newydd. Diolch Milly!

Cafodd côr Ysgol Gwaelod y Garth y pleser o berfformio mewn cyngerdd er budd Welsh Hearts Calonnau Cymru yn Eglwys Dewi Sant. Fe berfformiodd y plant yn wych gan rannu llwyfan gyda Trystan Llŷr Griffiths, Ellen Williams, Cor Abercynon ac Ysgol Glantaf. Da iawn chi blantos a diolch yn fawr i Mrs Price am hyfforddi'r côr.

Mae Band Pres Ysgol Gwaelod y Garth yn mynd o nerth o nerth a'n ymarfer yn wythnosol yn yr ysgol o dan ofal Mat, yr athro pres. Cawson nhw'r cyfle i berfformio ddwywaith dros gyfnod y Nadolig – yng nghyngerdd Nadolig yr Adran Iau yng Nghapel Bethlehem ac yn Ffair Nadolig yr ysgol.



Mali yn darllen Tafod Elái

# CREIGIAU

Gohebydd Lleol:
Nia Williams

**Hanes y Cwiltiau**
Os buoch ar ymweliad â Chanolfan Gartholwg yn ddiweddar efallai i chi sylwi ar Gwiltiau cywrain a lliwgar sy'n cael eu harddangos yn y cyntedd ar hyn o bryd. Wel - crewyd y cwiltiau yma gan ddosbarth 'Tecstilau Creadigol' Sandra Rose prynhawn dydd Llun ar gyfer elusen 'Mothers of Africa' - pob aelod yn dylunio a brodweithio sgwâr (neu sgwariau) tra bo dwylo hynod fedrus Sandra yn eu dwyn at ei gilydd i greu y campweithiau sy'n y llun. Er mwyn cefnogi'r prosiect rydym yn ceisio codi arian ar gyfer gwella amodau byw y mamau a'u plant yn ardaloedd tlotaf Affrica. Fe welwch flwch casglu ar ddesg y dderbynfa. Y bwriad gwreiddiol ydoedd anfon y cwiltiau allan i Affrica i'w defnyddio gan fabanod bach. Ond efallai o'u harddangos yn yr ardal y gellir codi arian er mwyn prynu blancedi ymarferol i'w hanfon allan.





**Am gamp! Llongyfarchiadau mawr Gabriella!**
Mae'n dal yn ifanc - ond mae hi'n bencampwraig genedlaethol ym myd y cogyddion *patisserie*! Llynedd - a hithau'n gymharol newydd i fywyd y ddinas yn Llundain - daeth Gabby Cugno yn fuddugol mewn cystadleuaeth i ddod o hyd i *'Pastry chef'* y Flwyddyn. Mae'n dod o Creigiau - yn ferch i Dawn sy'n gyfrifol am Dŷ Coffi arbennig 'Y Berllan' - *The Orchard* yn Radur. Bellach mae hi'n gweithio gydag enwau mawr y byd *patisserie* yn y Ritz yn Llundain! Stori anhygoel a hithau ond yn ei hugeiniau cynnar. Pob dymuniad da, Gabriella - beth am Dŷ Coffi yn Creigiau rhyw ddydd?!

# Egni ac Angerdd Helen

A hithau, erbyn hyn, wedi cychwyn ar ei swydd fel Cyfarwyddwraig Strategol y corff cenedlaethol newydd fydd yn gofalu am ddarpariaethau Cymraeg i Oedolion, bydd rôl Helen Prosser yn gwbl allweddol i'r maes. Ac mae'r maes yn lwcus iawn iawn ei chael hi. Gwn fod un neu ddau o'r farn mai dim ond ysgrifennu'r golofn fach hon yr ydw i yn fy ngwaith o ddydd i ddydd, ond mae llawer iawn mwy o fy wythnos waith yn cael ei dreulio yn tiwtora gyda gwahanol sefydliadau - gyda Chanolfan Cymraeg i Oedolion Morgannwg yn eu plith. Gan taw Helen oedd Pennaeth y Ganolfan honno tan yr wythnos ddiwethaf, mae wedi bod yn fos arna i ers rhai blynyddoedd – a gyda thristwch mawr y clywais ei bod yn gadael am ei swydd newydd yn y Ganolfan Genedlaethol. Mae'n anodd meddwl am berson sydd â mwy o ymrwymiad i'w maes na Helen Prosser. Mae'n anodd meddwl am berson sydd â mwy o egni ac angerdd dros ei maes. Mae'n anodd meddwl am berson sydd â mwy o gonsyrn dros ei dysgwyr, ei phobol a'i staff. Mae'n anodd meddwl am berson sy'n llwyddo cystal i gyfuno hygrededd, awdurdod a natur gyfeillgar a chynhaliol. Mae'n anodd meddwl am berson sydd â mwy o dân yn ei bol dros Gymru, cymuned a'r Gymraeg. Os oes angen prawf bod ar Gymru angen gwŷr a gwragedd y Cymoedd, Helen Prosser yw'r prawf hwnnw. O gefndir di-gymraeg yn wreiddiol, fe drodd yn un o gonglfeini tawel yr iaith a thros y blynyddoedd mae wedi helpu ac ysbrydoli miloedd i ddarganfod yr iaith. Ar lefel bersonol fe helpodd fi i gael modd newydd i fyw a chyfeiriad newydd i 'mywyd pan oeddwn ar fy ngwannaf a mwyaf bregus. Ac mae fy nyled iddi yn un enfawr. Ie, gyda thristwch y clywais am ei hymadawiad o Ganolfan Morgannwg. Ond gyda chyffro hefyd, o wybod am y cadernid, y brwdfrydedd, y weledigaeth a'r hynawsedd y daw â nhw i'w swydd newydd – un sy'n gwbl hanfodol i ddyfodol y Gymraeg. Allai'r swydd honno ddim bod mewn dwylo ablach na saffach.

Cris Dafis o'r cylchgrawn Golwg

I Helen Prosser

Er addysg dysgwyr heddi — hi yw'r un
Y mae'n rhaid troi ati;
Os yw' n nos ar ein maes ni,
Helen sy' n ysbrydoli.

Os yw'r gwaith yn brysur i gyd, daw un
A dihuno'r ysbryd,
Gan ddeall â'i gwên ddiwyd...
Mae angen Helen o hyd.

Cans ni phallodd ymroddiad enaid hon;
Ennill tir fesul treiglad
Yw ei her, nid gwag-siarad
A'i gwersi yw gwersi'r gad.

Iaith Helen yw iaith Iolo, - ar gynnydd
Ym Morgannwg heno;
Gan fod craig i'w Cymreigio
Rhugl eu hiaith fydd erwau'r glo.

Ni all un fod heddiw'n llwm; — iddi hi
Rhown ddiolch yn offrwm -
I un orlawn o fwrlwm,
I undarn cadarn y cwm.

Emyr Davies

Cân i Helen
Ar dôn Calon Lân 29/ 1/16

Helen wyt ti wir yn sbesial
Ac yn bwysig iawn i ni,
Tiwtor gwych, ysbrydole- dig
Bydd hi'n od iawn hebddot ti.

Pob lwc it, ein hannwyl Helen,
Bydd 'na wagle rôl it fynd
Canu'n iach a wnawn it he-no
Diolch am fod yn fos a ffrind .

**********
Nailio wnest ramadeg gymhleth
Sadyrnau Siarad rhif y gwlith
Dysgu wnest ar gyrsiau lawer
Yn Swansea, Cardiff, Pyle a Neath

Pob lwc it, ein hannwyl Helen,
Bydd 'na wagle rôl it fynd .
Canu'n iach a wnawn it heno
Diolch am fod yn fos a ffrind.

**********

Gweithio oriau yn ddiflino
Wrth ymgyrchu, buost driw,
Amhrisiadwy yw'th gyfraniad
I gadw'r iaith Gymraeg yn fyw.

Pob lwc it, ein hannwyl Helen,
Bydd 'na wagle rôl it fynd
Canu'n iach a wnawn it heno
Diolch am fod yn fos a ffrind .

Siwan

## Merched y Wawr  Cangen y Garth



Roedd cyfarfod mis Chwefror yn hynod ddiddorol gyda Dr Jenny Thomas, Cyfarwyddwr Clinigol Plant a Merched, Ymddiriedolaeth Iechyd Caerdydd a'r Fro yn ein cyflwyno i hanes ac arwyddocad Ysbyty Rookwood trwy luniau a geiriau. Gyda chyfnod yr adeilad yn dirwyn i ben bydd y gwasanaethau yn cael eu trosglwyddo i adeiladau newydd ar safle Llandochau yn ystod y flwyddyn. Yn amlwg mi roedd gan Jenny deimladau chwerw felys ynglŷn â'r symud a hithau wedi treulio blynyddoedd hapus iawn yn gweithio yn yr hen adeilad. Yna ymhelaethodd ar y gwaith gwych a wneir gan staff Rookwood. Mae'r gwaith tîm yno i'w ganmol gyda'r claf yn ganolog i'r cyfan a'r cynlluniau adfer mor bositif. Ysgogodd lawer un ohonom i ymweld â'r lle cyn i'r ysbyty drosglwyddo i'w safle newydd ac i ddeall arwyddocad yr enw! Chi'n cofio ferched?! Diolch i Rh. Ll. am y llun!

Mis nesa - byddwn yn dathlu Dewi! **Nos Fercher, Mawrth y 9fed yn y Capel**, Efail Isaf, ar ei hyfryd, newydd wedd. Noson o adloniant ysgafn ynghyd â lluniaeth - ysgafn! Dechrau am 8 yr hwyr. Dewch i gefnogi!

## Merched y Wawr
## Cangen Tonysguboriau

Mae dewis Meryl Davies i gefnogi  Sefydliad y Galon Cymru ar gyfer ei phrosiect  fel Llywydd Cenedlaethol MYW wedi bod yn llwyddiannus iawn gyda dros £23,000 wedi ei godi hyd yn hyn i helpu  ariannu ymchwil nyrsys arbenigol , cael diffibrilwyr lle mae'r angen, ac i gynhyrchu pamffledi gwybodaeth ddwyieithog. Yn ddiweddar, enillodd MYW wobr WCVA am godi'r arian hyn mewn ffordd arloesol  h.y. casglu ategolion 'ail law' ein aelodau a'u gwerthu (ac mae sawl llond bag wedi cael ei gasglu yn ein cangen ni!)

Gofynnwyd i bob cangen gynnal o leia' un noson o hyfforddiant cymorth cyntaf a sgiliau achub bywyd ac fe drefnwyd fod ein gwestai'r mis yma yn gwneud hyn. Mae Dr Owen Charles yn feddyg teulu yng Nghaerdydd, fe gafodd fagwriaeth cynnar ym Mhentre'r Eglwys cyn i'r teulu symyd i orllewin Cymru.

Gyda chymorth 'Ann' dangosodd Dr Charles sut y dylai CPR gael ei wneud yn gywir ac hefyd mor rhwydd ydy ddefnyddio diffibriliwr. Rhoddodd gyngor ar gymorth cyntaf hefyd - sut i ddelio gyda rhywun sy'n tagu a llosgiadau.



Cafodd ein aelodau'r cyfle i edrych ar lawlfyr 'Menywod a chlefyd y galon' sydd wedi cael ei ariannu gan y mudiad i godi ymwybyddiaeth o beryglon clefyd y galon, yn enwedig ymysg merched.




Priodas Sion a Becky (Tudalen 8)

**HUW M**




Huw M yw'r cyfansoddwr a pherfformiwr o Gymru Huw Meredydd Roberts. Mae'n chwarae cymysgedd o felodïau gwreiddiol a chaneuon gwerin, wedi'u plethu gyda dylanwadau rhyngwladol i greu cerddoriaeth iasol, ddeallus. Mae Lucy Simmonds yn ymuno ar y sielo a chanu, Bethan Mai yn canu a chwarae'r acordion, a Iolo Whelan ar y drymiau, offerynnau taro ac yn canu.

Bydd Taith Utica Huw M yn Acapela, Pentyrch ar 29 Ebrill am 8yh. Tocynnau  - acapela.co.uk



# Stori Jayne

Yn ddiweddar 'dw i wedi gwneud ffrind newydd - ledi arbennig iawn, ledi o'r enw Jayne Griffiths. Mae llawer un ohonom wedi cael y pleser o ddod i 'nabod Jayne yn nosbarth Tecstilau pnawn Llun. Mae'n greadigol, mae'n ddyfeisgar ond yn hynod garedig. Caredigrwydd sy'n deillio yn wir o dristwch dybryd.




Yn 2012 collodd Jayne a'i gŵr Wayne eu merch, Rhian. Pump ar hugain oed oedd Rhian pan gollodd ei brwydr ddewr i gancr. Merch llawn egni, llawn bywyd - athrawes feithrin yn Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg, Llantrisant. Ei chyn ysgol pan oedd hi yn ddisgybl. Bu'n derbyn triniaeth yn Ysbyty Felindre am ddwy flynedd - ond daeth yr aflwydd yn ôl - yn gryfach - a chipio bywyd y ferch ifanc, ddewr. Tra'n derbyn triniaeth byddai Rhian yn helpu codi calonnau eraill ar y wardiau, yn cysuro, yn codi gwên. Person anhunanol fel yna ydy Jayne hefyd ac ers 2012 mae hi a'i gŵr, teulu a chyfeillion, wedi codi dros £170,000 er cof am Rhian. Arian fydd yn cael ei ddefnyddio i hybu gwaith ymchwil yr Ysbyty ond hefyd i wella stafelloedd ar gyfer teuluoedd y cleifion tra byddant yn aros yno. Yn ogystal maent yn ariannu nyrs arbenigol ym maes oncoleg gynaecolegol.

Sefydlwyd y 'Rhian Griffiths Velindre Rose Tribute Fund' ac mae'r apêl wedi denu cymaint o ddiddordeb ac arian. Cynhaliwyd raffles, teithiau cerdded, teithiau beic - ond dros y misoedd dwetha mae Jayne wedi gwneud **800** o 'angylion gwarcheidiol' a chrewyd 10,000 o'r blodau bach - 'n'ad fi'n angof'. Cynhyrchir y blodau - 'n'ad fi'n angof' gan gwmni awgrymwyd gan Julie Smith, rheolwriag Siop Felindre. Ac mae 'na stori tu ôl i'r dewis o flodyn - dosbarthwyd pili palas papur yn cynnwys hadau 'n'ad fi'n angof' wedi angladd Rhian er mwyn i bawb eu plannu er cof amdani - doedd hi ddim am gael ei hanghofio! Cânt eu gwerthu yn lleol er mwyn parhau i godi arian. Aeth rhai o'r 'angylion gwarcheidiol' cyn belled â Phatagonia yn ddiweddar pan aeth Carolyn Hitt, Rhod Gilbert, Karen Price a llawer iawn o gerddwyr di-ofn ar daith noddedig galed iawn i'r Andes jyst cyn y 'Dolig - pob un yn cario 'angel' i gofio am Rhian ac eraill.

Os carech chi gyfrannu neu brynu un o'r tlysau - maent ar werth yn siop Felindre, yn swyddfa cyfreithwyr Devonalds ym Mhontypridd, ym manc Santander, Pontypridd ac yn Asda Living, Tonysguboriau. Cyn hir bydd gan Jayne ei thudalen Facebook ei hunan. Cewch wybodaeth gyda hyn.

Nia Williams

# GILFACH GOCH

*Gohebydd Lleol:*
Betsi Griffiths

**Marwolaeth**

Roedd pawb yn flin i glywed am farwolaeth Mrs Raynee Bryant. Dathlodd Mrs Bryant ei phen-blwydd yn gant oed ym mis Mai pan gynhaliodd y teulu barti iddi yn y Parc Treftadaeth. Yn anffodus gorfu iddi fynd i gartref preswyl yn Nhreherbert yn yr haf ond gwaethygodd ei iechyd.

Cynhaliwyd y Gwasanaeth Angladdol yn eglwys Sant Barnabas ac yna yn Amlosgfa Llangrallo dan ofal y Ficer y Parch Ruth Moverly ac yna paned yn y Griffin.

Roedd Mrs Bryant yn enwog am ei gwaith gwnïo ac roedd ei ffrogiau priodas yn arbennig. Roedd hefyd yn hoff iawn o gwiltio yn y dull Cymreig, hi oedd athrawes y Dosbarth Cwiltio.

Cydymdeimlwn â'i meibion John, Philip a David a'u teuluoedd yn eu colled. Coffa da amdani.

**Y Ganolfan Gymunedol Hendreforgan**

Bydd y Ganolfan yn dathlu ei ben-blwydd yn 20 oed ddydd Sadwrn Mawrth 5ed. Mae'r lle bwyta yn boblogaidd iawn lle gellir cael Cinio Ganol Dydd a phaned a sgwrs.

Mae'r Ganolfan yn darparu ar gyfer plant Meithrin a phlant oed ysgol yn y Clwb ar ôl Ysgol. Mae Clwb Ienctyd a dosbarthiadau Cyfrifiaduron, Ymarfer Corff Coginio, Pêl-rwyd, cerdded a Crochenwaith ar gyfer yr ifanc ac oedolion.

Dymuniadau gorau am lawer pen-blwydd eto.

Cais – cwmni recriwtio addysgiadol Cymreig sydd yn darparu athrawon uwchradd a chynradd, cynorthwywyr dosbarth a staff gweinyddol ar gyfer ysgolion Cymraeg a dwyieithog ledled Cymru.

Sefydlwyd Cais i ddarparu gwasanaeth personol a phroffesiynol i ysgolion Cymru o fis Medi ymlaen. Bwriad Cais yw sicrhau chwarae teg i'n staff a'n hysgolion. Bydd Cais yn gweithio mewn partneriaeth â chi, y sefydliadau addysgiadol, a'n staff safonol i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel a fydd yn llesol i ddisgyblion Cymru.

Mae pob aelod o dîm ymgynghorol a gweinyddol Cais â phrofiad ym maes addysg ac yn rhugl yn y Gymraeg.

Rydym ar hyn o bryd yn awyddus i recriwtio athrawon cynradd ac uwchradd, cynorthwywyr dosbarth a staff gweinyddol.

Cysylltwch â ni am sgwrs anffurfiol.
www.caisaddysg.co.uk
01558 543008
info@caisaddysg.co.uk
07821605410

# Pump Enillydd yr Urdd ar eu Ffordd i Disneyland Paris

Ddydd Sadwrn, 5 Mawrth, bydd pump o enillwyr Eisteddfod yr Urdd Caerffili a'r Cylch yn cael cyfle bythgofiadwy i berfformio mewn cyngerdd Gŵyl Ddewi yn Disneyland Paris.

Mae lleoliad y cyngerdd Gŵyl Ddewi wedi ei symud eleni i lwyfan sydd yng nghanol y parc, o flaen castell eiconig Y Dywysoges Drwg ei Chwsg. Yn ogystal â pherfformio yno, mi fydd y pump hefyd yn cael arwain gorymdaith ddyddiol cymeriadau enwog y parc, mewn cerbyd gyda Minnie a Mickey, o flaen degau o filoedd o ymwelwyr.

Bydd y pump enillydd a'u teuluoedd yn hedfan allan i Baris nos Iau, 3 Mawrth gan aros yna tan brynhawn dydd Sul y 6ed o Fawrth. Bydd y diwrnod Gŵyl Ddewi yn cael ei gynnal ar y dydd Sadwrn, gyda Minnie Mouse a Mickey Mouse i'w gweld mewn gwisgoedd Cymreig o amgylch y parc.

Y pump fydd yn teithio i Disneyland Paris eleni fydd Marged Jones a Siwan Jones o Ysgol Gynradd y Dderwen (enillwyr unawd bl2 a iau ac unawd bl 3 – 4), Lowri Davies o Ysgol Gyfun Dyffryn Teifi (enillydd unawd bl 5 – 6), Daniel Calan Jones o Ysgol Gyfun Plasmawr (enillydd dawns unigol i fechgyn bl 9 a iau) a Caitlin Drake o Ysgol Uwchradd Morgan Llwyd (enillydd unawd allan o sioe gerdd bl 10 ac o dan 19 oed).

Hon fydd y 6ed blwyddyn i'r Urdd gydweithio gyda Disney ar eu penwythnos Cymreig.

# LLANTRISANT GROESFAEN MEISGYN

Gohebydd: Eirlys Lamb

**Priodas Sion a Becky (Llun tudalen 4)**
Ym mis Rhagfyr priododd Sion Morris â Becky Purser, yn Loughton, swydd Essex. Sion yw'r ieuengaf o feibion Keith a Jen Morris , Meisgyn, a chyn-ddisgybl Ysgol Gymraeg Llantrisant ac Ysgol Gyfun Llanharri. Ei weision priodas oedd ei ddau frawd mawr Owen a Rhodri, gyda'r tair nith a dau neiant yn rhoi help llaw iddynt. Mae Sion yn gweithio i gwmni insiwrans yn Llundain a Becky yn athrawes Mathamateg yn Dagenham. Maent wedi ymgartrefi yn Loughton. Dyma lun o'r Morisiaid i gyd ar yr achlysur.

**Llongyfarchiadau!**
I Eric a Carole Willis, Groesfaen ar enedigaeth dau ŵyr bach newydd yn ddiweddar - Hari Wyn a Wiliam.

Hefyd i Bethan a Mick Guilfoyle ar enedigaeth wyres fach newydd - Erin.

**Llwybr cerdded o'r diwedd…**
Ar ôl hir ddisgwyl mae cyngor Rhondda Cynon Tâf ar fin dechrau'r gwaith o baratoi llwybyr cerdded o Lantrisant i Frynteg. Bwriedir gwneud rhan fwyaf o'r gwaith ar y penwythnos yn unig dros y misoedd nesaf, felly bydd goleaudau traffig mewn bodolaeth bob dydd Sadwrn a'r ffordd rhwng Dan Caerlan a Brynteg ar gau yn gyfangwbwl ar y Sul. Yn ôl y Cyngor, y gobaith yw cwbwlhau'r gwaith erbyn mis Hydref.

**Llwybr arall ……**
Mae'n debyg bod Pwyllgor Cynllunio RhCT wedi rhoi caniatád i estyn y llwybr seiclo a cherdded o Cross Inn i Bontyclun, sef ar hyd yr hen rheilffordd, gan gysylltu gyda'r llwybr sydd eisioes ar lan yr afon Elai. Golyga hyn y bydd yn bosibl seiclo a cherdded yr holl ffordd o Dreforest i Bontyclun maes o law.

**Yr A4119**
I'r rhai ohonoch sy'n dyfalu beth sy'n mynd mlân o gwmpas y cylchdro yn ymyl Matalan / Peacocks, y bwriad yw llydanu'r ffordd o bob cyfeiriad. Mae'r coed eisioes wedi eu torri a chasglwyd dros 200 o greaduriaid (nadroedd, brogaod a madfallod) i'w ail-gartrefu! Telir am y gwaith – cost o tua £3miliwn - gan gwmni Sainsbury's fel rhan o'u costau cynllunio ar gyfer codi archfarchnad newydd gerllaw. Ar hyn o bryd does dim sicrwydd bod Sainsbury's yn mynd ymlaen a'r adeiladu ond o leia bydd y drafnidiaeth o gwmpas y cylchdro dipyn yn fwy hwylus i drigolion yr ardal.

**Santes Dwynwen Hapus**
Daeth dros gant o bobol ynghyd i fwyty yr Happy Gathering, Canton, i ddathlu noson Santes Dwynwen, a chodi arian i apel yr Urdd 2017. Trefnwyd y noson gan bwyllgor apel ardal Llantrisant. Codwyd dros fil o bunoedd. Diolch yn fawr i bawb a gefnogodd a llongyfarchidau mawr i dîm Llanhari Meantime am ennill Cwis y Cariadon.

**Y Miskin Arms**
Mae Dudley Newbery yn dal mewn trafodaethau gyda'r cyngor lleol ynglyn â'r cylluniau sydd ganddo i newid a gwella'r dafarn. Bwriad Dudley yw cael estynniad tebyg y dy gwydyr ar gefn y dafarn. Bydd yr ystafell lle mae'r bar ar hyn o bryd yn newid i fod yn le bwyta gyda'r bwydydd sy'n cael eu cynnig yn cael eu harddangos mewn cownteri oer a'r gegin newydd yn 'open-plan' i'w gweld gan y cwsmeriaid. Mae Dudley, ynghyd â'i bartner busnes, Daniel Martinez (perchennog y Custom House), yn awyddus i gadw naws y dafarn fel y mae - sef yn dafarn bentref gyda bar lle mae pobl yn gallu cwrdd a chymdeithasu. Bydd y fwydlen hefyd yn adlewyrchu hyn gyda chynnig o fwydydd o safon da 'cartrefol' sy'n cynnwys cynnyrch lleol. Rydym yn dymuno'n dda iddynt ac yn edrych 'mlaen at weld y gwellianau yn fuan.

**Apêl Macmillan**
Daeth dros gant i gystadlu mewn timau ar noson y cwis mawr blynyddol yng Nghlwb Athletig Pontyclun. Roedd yn noson o hwyl gyda chyfle i gymdeithasu tra'n cyfrannu at yr elusen. Aelodau o Grwp Codi Arian Macmillan Pontyclun a'r Cylch oedd yn gyfrifol am drefnu'r noson ac fe godwyd dros £600.

Ar Fawrth 10fed mae tŷ bwyta y New Raj yn Tonysguboriau yn cynnal noson pryd fydd buffet am £10.99 yn cael ei weini gyda 40% o'r pris yn cael ei roi I Macmillan - cysylltwch ag Eluned Davies-Scott am fwy o wybodaeth



Noson Macmillan

# PENTYRCH

*Gohebydd Lleol:*
*Marian Wynne*

**Dathlu**
Llongyfarchiadau arbennig i Avril a Don Llewellyn fydd yn dathlu eu Priodas Ddiemwnt ym mis Mawrth. Maent am gynnal parti i ddiolch i'w holl ffrindiau am eu cyfeillgarwch.

**Damwain**
Dymunwn wellhad buan i Penri, yr Hendre, gafodd godwm cas wrth sgïo yn Flaine, Ffrainc. Gobeithio na fydd y plaster ar ei goes yn amharu ar ei waith yn golygu Tafod Elái.

## Chwaraeon yr Urdd

**Cystadleuaeth Rygbi Tag Merched 7 bob ochr Cymoedd Morgannwg 2016**
Dyma gystadleuaeth newydd sbon sydd yn cael ei chynnal ddydd Mercher 13eg o Ebrill 2016 ar gaeau Canolfan Chwaraeon Aberdâr. Amgaeaf y ffurflen gystadlu i chi lenwi enwau'r plant yn y tîm. A allwch chi ei ddychwelyd erbyn **21ain o Fawrth** os gwelwch yn dda?

Mae holl fanylion y gystadleuaeth wedi eu nodi isod. Mae'n rhaid i BOB aelod sy'n cystadlu fod yn aelod o'r Urdd. Mae'n rhaid gwneud hyn ar wefan yr Urdd: www.urdd.cymru.

**Cystadleuaeth Rygbi Tag i Ferched**
Caeau Chwarae Canolfan Chwaraeon Aberdar
Dydd Mercher 13eg o Ebrill
Cofrestru : 9.30yb Gorffen: tua 2.30

**Cystadleuaeth Rygbi 7 bob ochr Cymoedd Morgannwg 2016**
Dyma manylion terfynol y gystadleuaeth Rygbi sydd yn cael ei chynnal ddydd Mercher 13eg o Ebrill 2016 ar gaeau Canolfan Chwaraeon Aberdâr. Amgaeaf y ffurflen gystadlu i chi lenwi enwau'r plant yn y tîm. A allwch chi ei ddychwelyd erbyn 21ain o Fawrth os gwelwch yn dda?

Mae holl fanylion y gystadleuaeth wedi eu nodi isod. Mae'n rhaid i BOB aelod sy'n cystadlu fod yn aelod o'r Urdd. Mae'n rhaid gwneud hyn ar wefan yr Urdd: www.urdd.cymru.

Rygbi Cynradd
Caeau Chwarae Canolfan Chwaraeon Aberdar
Dydd Mercher 13eg o Ebrill
Cofrestru / 9.30yb Gorffen: tua 2.30

DELYTH SOUTHALL
Swyddog Datblygu Cymoedd Morgannwg

# EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

**Cydymdeimlo**
Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant i Hefin, Trystan ac Osian Gruffydd, Nantcelyn ar golli mam-yng-nghyfraith a Nain annwyl ddiwedd Ionawr, sef mam y diweddar Lowri.. Bregus iawn fu iechyd Mrs Alwen Kemp ers tro. Cynhaliwyd y gwasanaethau angladdol yng nghapel y Tabernacl Caerdydd ar Chwefror 9fed ac yng Nghapel Seion, Glyn Ceiriog ar Chwefror 10fed.

Estynnwn ein cydymdeimlad hefyd i deulu Carl Chatwell a fu farw yn Rhydychen ar y cyntaf o Chwefror. Bu Carl a'i ddiweddar wraig Dora'n byw yn Heol y Ffynnon yn y pentref am flynyddoedd cyn symud lawr i fyw yn Y Tymbl, Sir Gaerfyrddin. Roedd y plant, Delyth, Geraint a Bethan yn ddisgyblion yn Ysgol Gymraeg Garth Olwg.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau gwresog i Gwyneth Davies, Llanilltud Faerdref ar roi chwarter canrif o wasanaeth ar staff adran gynhyrchu'r rhaglen "Heno". Roedd "Heno" yn dathlu pum mlynedd ar hugain o ddarlledu ddechrau'r flwyddyn ac mi roedd Gwyneth yno o'r dechrau.

**Buddugoliaeth i'r Pentrefwyr**
Mae'n edrych yn debyg fod y gwaith protestio gan y pentrefwyr wedi talu ffordd gan fod y cais i adeiladu cant a hanner o dai ar dir Fferm Cwm Uchaf wedi cael ei dynnu'n ôl. Er bod hyn yn newyddion da, rhybuddir y pentrefwyr i fod yn effro gan y gall y cais gael ei ail-gyflwyno ar unrhyw adeg yn y dyfodol.

## Y TABERNACL

**Aelod Newydd**
Roedd yn braf cael croesawu aelod newydd arall i'r eglwys yn yr Oedfa Gymun, ddechrau Chwefror. Croesawyd Diana Dethridge i fod yn aelod yn y Tabernacl gan Wendy Reynolds, Cadeirydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr. Mae Diana yn hanu o ardal Llandysul ac mae hi a'r merched, Ffion a Bethan, wedi bod yn ffyddlon iawn yn yr oedfaon ers tro. Mae Diana'n weithgar yn yr Ysgol Sul ac wedi ymgymryd â'r gwaith o gyflwyno cerdiau pen-blwydd i blant yr Ysgol Sul.

**Cinio Gŵyl Dewi**
Cynhelir cinio i'r teulu cyfan yn Neuadd y Pentref ddydd Sul, Chwefror 28ain. Bydd elw'r cinio yn cael ei gyflwyno i elusennau'r Capel.

**Merched y Tabernacl**
Ddydd Mercher, Chwefror 10fed ymgasglodd nifer fach o ferched y Tabernacl yn ffreutur Y Coleg Cerdd Drama yng Nghaerdydd i gael sgwrs dros fyrbryd a phaned. Cawsom ein diddanu yn y Gyngerdd Awr Ginio gan Gerddorfa a Chôr y Coleg. Perfformiwyd dau ddarn o waith Beethoven. Yn y darn cyntaf, "Ah Perfido" a berfformiwyd yn gelfydd iawn, yr unawdydd oedd y Soprano Reisha Adams. Ymunodd y Côr a'r gerddorfa ar gyfer yr ail ddarn, y "Choral Symphony" a chafwyd canu grymus gan Gôr y Coleg. Swynwyd y gynulleidfa'n llwyr gan berfformiad Rachel Starritt y pianydd dall. Cafwyd perfformiad gwych ganddi a adawodd nifer fawr o'r gynulleidfa yn eu dagrau.

Byddwn yn cyfarfod yng Nghanolfan y Tabernacl am hanner awr wedi 10, ddydd Mawrth, Mawrth 15fed i groesawu. Y Parchedig Rhiannon Francis a fydd yn trafod ei gwaith fel Caplan Ysbyty.

**Trefn yr Oedfaon ar gyfer Mis Mawrth.**
Mawrth 6ed. Oedfa Gymun o dan ofal Aelodau Pentyrch.
Mawrth 13eg. Keith Rowlands
Mawrth 20fed. Oedfa Deuluol o dan ofal Wendy Reynolds, Huw a Beth

# PONTYPRIDD

Gohebydd Lleol:
Jayne Rees

**Gwellhad buan**
Brysiwch wella Tom Jones, Llandaf, gynt o'r Comin. Mae Tom wedi derbyn triniaeth ar ei galon yn ddiweddar. Mae aelodau o Gôr Godre'r Garth yn gobeithio dy weld nôl yn yr ymarferion cyn bo hir.

**Merched y Wawr**
Bydd y gangen yn dathlu Gŵyl Ddewi wrth giniawa ym Mwyty Cicchetti, Radyr nos Iau 10fed o Fawrth.
Ym mis Ebrill fe fydd Gwen Griffiths , Maesycoed yn siarad am Grochendy Nantgarw, Lleoliad i'w gadarnhau.(nos Iau Ebrill 7fed)

**Pwyllgor Apêl yr Urdd**
Y digwyddiad nesa i godi arian fydd noson Cyri a Chlonc nos Fawrth 12fed o Ebrill am 7.00 yn nhŷ bwyta Indiaidd 'Juboraj' .Tocyn £20 y pen am bryd 2 gwrs. Tocynnau ar gael gan aelodau o'r Pwyllgor Apêl neu ffoniwch 07814987969

**Llongyfarchiadau**
Pob dymuniad da i Nerys Mann, Vale Gardens sydd wedi dyweddio yn ddiweddar gyda'i chariad Osian Hughes

**Beth am ddysgu'r iwcaleli?**
Mae poblogrwydd yr offeryn bach yma wedi ysgogi Dafydd Roberts a David 'Niwc' Penny Jones i greu safle ar y we gyda chronfa o ganeuon poblogaidd yn Gymraeg a Saesneg i'w chwarae ar yr iwcaleli. Mae nifer o blant yn dysgu chwarae'r offeryn yn yr ysgolion. Mae Dafydd wedi bod yn cynnal dosbarthiadau yn lleol a Mei Gwynedd a dosbarth yng Nghaerdydd.
Cyfeiriad y wefan yw www.iwcs.cymru

**Dathliad arbennig**
Pen blwydd hapus iawn a dymuniadau gorau i Alona Rees, Y Comin sy'n dathlu pen blwydd nodedig y mis yma.

**Llais yr Ifanc**
Llongyfarchiadau i Dafydd Duggan, gynt o Bontypridd, ar gael ei ethol ar Bwyllgor Ieuenctid Undeb Rygbi Cymru. Mae Dafydd yn ddisgybl yn y Chweched yn Ysgol Bro Hyddgen ac yn chwarae rygbi i Lanidloes. Mae 15 o bobol ifanc o Gymru gyfan wedi'u dewis ar gyfer lleisio barn y ieuenctid ym myd rygbi.

**Clwb Llyfrau**
Byddwn yn cwrdd nos Iau 17eg o Fawrth yng Nghlwb y Bont am 8.00.Clasuron yn Saesneg fydd dan sylw y mis yma. Beth am ail ddarllen cyfrol buoch chi astudio yn yr ysgol neu goleg? Y llyfrau dan sylw ym Mis Ebrill yw 'Cuddwas' gan Gareth Miles a 'Norte' gan Jon Gower. Byddwn yn cwrdd nos Iau Ebrill 14eg.

**Premiere Pontio**
Yn ystod hanner tymor Chwefror cychwynnwyd ar berfformiadau 'Chwalfa' gan Theatr Genedlaethol Cymru yng Nghanolfan Gelfyddydau Bangor sef Pontio. Addasiad o nofel T. Rowland Hughes yw'r ddrama gan Gareth Miles, Graigwen.Yn ogystal ag actorion proffesiynol mae yna gast o'r gymuned yn adrodd hanes streic fawr Chwarel y Penrhyn. Gwerthwyd bron i 4000 o docynnau ar gyfer y perfformiadau.

**Babi newydd**
Llongyfarchiadau a chroeso mawr i Greta – babi cyntaf Emma Jay a Joel Cope , Vale Gardens, Graigwen.
Roedd Emma yn ddisgybl yn Ysgol Evan James a Rhydfelen.

# Bethlehem Gwaelod-y-garth

**Trefn yr Oedfaon** (ar y Sul am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol) **:**

**Mis Mawrth 2016:**

1 Cwrdd Gweddi Dewi Sant (9:30yb)
6 Oedfa gymun dan ofal y Parchedig Glyn Tudwal Jones
13 Oedfa Ardal (Cofio Daniel Prothero)
20 Oedfa dan ofal y Parchedig R Alun Evans
25 Oedfa Gwener y Groglith (10:30yb)
27 Oedfa dan ofal y Parchedig Peter Dewi Richards

**Mis Ebrill 2016:**

3 Oedfa gymun dan ofal y Parchedig Allan Pickard
10 Oedfa dan ofal Geraint Rees
17 Oedfa dan ofal y Parchedig Hywel Wyn Richards
24 Oedfa Ardal

---

**Crynodeb o'r Cwrdd Eglwys a gynhaliwyd ar Sul y 14eg o Chwefror 2016:**

**Defnydd yr adeilad ar gyfer priodasau un rhyw:**

Cyflwynodd yr Ysgrifennydd fraslun o'r ddogfen a anfonwyd i'r aelodau yn ystod yr wythnos flaenorol (sef y ddogfen a gyflwynwyd gan Emlyn Davies i Gyfundeb Dwyrain Morgannwg ym mis Ebrill 2015). [Diolch iddo am ei ganiatad i wneud defnydd o'r ddogfen.]

Cyfeiriodd yn ogystal at ddogfen a baratowyd gan Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol sef "Deddf Priodas (Cyplau o'r un rhyw) 2013 – Y Goblygiadau Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i Sefydliadau Crefyddol".

Y pwyntiau allweddol yn y ddogfen hon yw'r canlynol:

- Mae'r Ddeddf yn ymestyn priodas i gyplau o'r un rhyw yng Nghymru a Lloegr, tra'n amddiffyn rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd ar yr un pryd.
- Mae corff llywodraethu sefydliad crefyddol yn rhydd i ddewis a ddylid priodi cyplau o'r un rhyw.
- Lle mae corff llywodraethu sefydliad crefyddol wedi dewis optio i mewn i briodi cyplau o'r un rhyw, galluogir y sefydliad hwnnw a'i swyddogion i briodi cyplau o'r un rhyw.
- Os nad yw sefydliad crefyddol wedi optio i mewn, ni all briodi cyplau o'r un rhyw yn ôl ei ddefodau; mae'n annhebygol y cydnabyddir y fath briodas, os digwydd, gan y gyfraith ac mae'n bosibl ei dirymu.
- Mae'r Ddeddf yn rhoi amddiffyniad pendant i sefydliadau crefyddol a'u swyddogion rhag gael eu gorfodi trwy unrhyw fodd i gynnal gweithgareddau ynghylch priodasau crefyddol cyplau o'r un rhyw.
- Lle mae sefydliad crefyddol yn dewis optio i mewn i briodi cyplau o'r un rhyw, ond nad yw swyddog y sefydliad hwnnw'n dymuno ymgymryd â'r fath ddyletswyddau priodas gan eu bod yn ymwneud â chwpl o'r un rhyw, mae'r Ddeddf yn amddiffyn y swyddog rhag gael ei orfodi i wneud felly.

Roedd pob un a gyfrannodd i'r drafodaeth yn mynegi eu dymuniad i weld Bethlehem, Gwaelod-y-garth yn parhau i fod yn eglwys gynhwysol a chariadus, ac yn yr ysbryd hwnnw y dylid "optio i mewn" a chofrestru'r capel fel y caniateir i gyplau o'r un rhyw briodi yno.

Nid fynegwyd gwrthwynebiad i'r safbwynt yma gan unrhyw un a oedd yn bresennol.

Er sicrhau cysondeb cydsyniwyd y byddid yn cynnal pleidlais ar bapur ar y egwyddor o "optio i mewn", ac y byddai'r bleidlais yn cael ei chynnal ar Sul yr 28ain o Chwefror 2016. Yn ôl dymuniad y Cwrdd Eglwys ni chynhelir trafodaeth bellach bryd hynny.

Yn dilyn y bleidlais ar yr 28ain o Chwefror, beth bynnag fydd y canlyniad, awgrymwyd y byddai'n ddymunol sefydlu Polisi Priodasau, gydag, er engraifft, weithgor priodol i'w arolygu.

Byddai hyn yn fodd o sicrhau natur y gwasanaeth priodasol a ganiateir yn y dyfodol (h.y. bod naws Gristnogol gynhwysol i'r gwasanaeth), ac hefyd yn ffordd o roi eglurder ar bwy a fyddai'n cael priodi yn y capel (h.y. a oes perthynas ddilys a Bethlehem, un a'i yn hanesyddol, neu'n un a fyddai'n cynnwys ymroddiad arfaethedig i'r eglwys).

Byddai'r gweithgor hefyd, o fewn cyd-destun ehangach, yn gallu arolygu unrhyw ddefnydd o'r adeilad, a'r costau a fyddai'n deillio o'r defnydd hwnnw.

Nodwyd mai ystyriaeth i Gwrdd Eglwys yn y dyfodol fydd hyn. [Diolch eto i'r Tabernacl, Efail Isaf am arweiniad ar drefn o'r fath.]

Erbyn i'r rhifyn yma o Tafod Elái ddod o'r wasg, bydd Bethlehem wedi pleidleisio, a bydd dymuniad yr eglwys yn hysbys i bawb.

---

Cofiwch y cynhelir Ysgol Sul i'r plant bob Sul heblaw am wyliau Ysgol a hynny i gyd fynd ac amser yr oedfa am 10:30 a.m.

Cofiwch hefyd am wefan Bethlehem sydd i'w chanfod ar www.gwe-bethlehem.org Ymwelwch yn gyson a'r safle i chwi gael y newyddion diweddaraf am hynt a helynt yr eglwys a'i phobl. Hefyd mae gan Bethlehem gyfri trydar (twitter) - @gwebethlehem.

# Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Adeiladau fel Pwerdai - Darlith gan Trystan Watson o Brifysgol Abertawe ar 17eg o Chwefror 2016.

Yn ystod misoedd oer y flwyddyn, mae derbyn biliau pwer yn gallu bod yn brofiad poenus. Ond sut hoffech fyw mewn tŷ hunan gynhaliol, lle mae yr holl egni a gwres yn dod o'r Haul, a does dim angen cysylltiad i'r grid trydan neu gyflenwad nwy? Mae e hyd yn oed yn bosib adeiladu tŷ sydd yn cynhyrchu mwy o egni nac sydd angen arno - sef tŷ egni positif. Soniodd Trystan Watson o Brifysgol Abertawe am rai o'r technolegau sy'n gwneud hyn yn bosib. Mae Trystan yn gweithio yn nghanolfan SPECIFIC (Sustainable Product Engineering Centre for Innovation in Functional Coatings), menter gydweithredol rhwng Prifysgol Abertawe a chwmniau fel Tata Steel, NSG Pilkington a BASF gydag arian o Llywodraeth Cymru a'r Cyngor Ymchwil EPSRC.

Mae Trystan yn arbenigwr ar ddyfeisiau ffotofoltaic sy'n troi egni golau mewn i egni trydanol. Dyma'r dechnoleg sydd yn y paneli solar sydd i'w gweld ar doeon tai ymhobman. Mae Trystan yn gweithio ar y genhedlaeth nesaf o'r dechnoleg, lle mae celloedd solar yn rhan o'r paneli dur sy'n gorchuddio adeiladau, neu yn rhan o'r gwydr yn y ffenestri, neu hyd yn oed yn cael eu printio ar blastic hyblyg.

Esboniodd Trystan fel roedd canolfan SPECIFIC yn debyg iawn i ffatri lle gellir profi'r broses ddiwydianol o gynhyrchu defnyddiau newydd. Soniodd yn arbennig am y defnydd Perovskit a ellir ei brintio ar haen o blastig i wneud celloedd solar hyblyg iawn. Un o lwyddiannau mawr grŵp ymchwil Trystan oedd darganfod proses lle gellir cynhyrchu Perovskit mewn eiliadau yn hytrach nac oriau - gan arbed llawer iawn o amser ac arian. Roedd brwdfrydedd Trystan yn bleser i'w weld wrth iddo esbonio fel bydd technoleg egni Haul yn ogystal a gwelliannau mewn technoleg batri yn newid y ffordd rydym yn cynhyrchu a storio egni trydanol. Ac roedd hi'n dda i gael clywed hanes am lwyddiant technolegol yn dod o gampws newydd y Brifysgol ym Mae Abertawe. Fel dywedodd y siaradwr ar ddechrau ei ddarlith, mae digon o egni yn dod o'r Haul mewn un diwrnod i bweru dynoliaeth am 27 mlynedd - ac mae'n bryd i ni ddechrau defnyddio y ffynhonnell yma o egni yn well.

Rhys Morris

# Mr Bulkeley o'r Brynddu

Bydd cynhyrchiad unigryw yn ymweld â Chanolfan Gartholwg nos Wener 29 Ebrill a Neuadd Llanover, Pontcanna nos Sadwrn 30 Ebrill.

Mae 'Mr Bulkeley o'r Brynddu' yn dod â dyddiaduron o'r 18fed ganrif yn fyw drwy ddrama a cherddoriaeth. Dyma ail daith y ddrama lwyddiannus, wedi derbyniad gwresog a nifer o nosweithiau wedi gwerthu allan yn ystod y daith gyntaf.

Dyma gyfle i weld drama sy'n llawn cyffro a cherddoriaeth. Ynddi, cawn olygfeydd dramatig sydd yn adlewyrchu bywydau'r bonedd a'r werin yn ystod y cyfnod: y diddanwch a'r cyffro, y llon a'r lleddf.
Mae'r perfformiadau dwyieithog yn cael eu llwyfannu gan Gwmni Pendraw, cwmni sydd wedi'i sefydlu'n unswydd i greu profiadau theatraidd sy'n cyfuno themâu hanesyddol a gwyddonol.


Yr actor adnabyddus, Wyn Bowen Harries sy'n cyfarwyddo'r cynhyrchiad ac meddai:
"Mae bywyd William Bulkeley yn darllen fel opera sebon. Priododd ei ferch â môr-leidr, bu farw ei fab o alcoholiaeth, cafodd ei fam ei lladd gan ysgol yn syrthio ar ei phen cyn cael ei sathru gan wartheg! Fel sgweier ac Ustus Heddwch, mae ei ddyddiaduron yn rhoi darlun diddorol iawn o fywyd cefn gwlad Cymru yn y 1700au"

"Byddwn yn cyflwyno uchafbwyntiau o'r dyddiaduron, gan gynnwys hanes ei deithiau i'r Iwerddon ynghyd â ffeiriau, ymladd ceiliogod, a sgandalau'r llys ym Miwmares. Cofnodwyd nifer o ganeuon yn y dyddiaduron ac fe gynhwysir digonedd o gerddoriaeth yn y perfformiad gan Stephen Rees o Ysgol Gerddoriaeth Prifysgol Bangor, sy'n arbenigwr ar gerddoriaeth gwerin y cyfnod."


Cyflwynir y cynhyrchiad mewn cydweithrediad â Theatr Bara Caws ac fe'i noddir gan Gyngor Sir Ynys Môn, Cynllun Noson Allan, Cyngor Celfyddydau Cymru, Cymdeithas Edward Llwyd/Llên Natur, MagnoxSDF a Chonsortiwm Newid Hinsawdd Cymru.

Mae'r tocynnau ar gael drwy gartholwg.org 01443 219589 (Pontypridd) neu 02920631144 (Pontcanna).

cwmnipendraw.com




# CROESAIR COL



**Ar Draws**

8. Methu (7)
9. 'Nawr (5)
10. Cystadleuaeth (9)
12. Mab i frawd neu chwaer (3)
13. Yr Arglwydd (3)
14. Bys bawd (7)
16. Dirmygus (7)
18. Clod (3)
19. Pa ddyn? (3)
20. Gwasgfeydd (9)
22. Parchu (5)
23. Cymryd gofal (7)

**I Lawr**

1. Golwg (8)
2. Arf (6)
3. Offeryn llyfni (2)
4. Simnai (4)
5. Arweiniad (10)
6. Haen (6)
7. Egni (4)
11. Gwneud yn gysygredig (10)
14. Cigwain (3)
15. Trafferthu'n ofer (8)
17. Yn ymwneud ag ynys (6)
18. Prinder (6)
19. Tŷ mawr (4)
21. Cân o fawl i Dduw (4)
24. Heb ddweud—na be (2)

**Atebion i: Croesair Col**
**34, Pen Bryn Hendy, Yr Encil, Meisgyn, Pontyclun. CF72 8QX**
**erbyn 15 Mawrth 2016**

## Atebion Chwefror

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| P | O | T | E | S | | C | A | D | F | A | E | S |
| | | R | | E | | O | | I | | D | | A |
| C | R | A | B | L | Y | D | | H | A | F | A | L |
| L | | E | | E | | Y | | D | | E | | |
| O | E | D | W | R | | M | O | D | U | R | D | Y |
| | R | | A | | FF | U | G | | FF | | E | |
| CH | W | A | N | T | U | | A | N | E | L | O | G |
| | A | | W | | R | I | M | | R | | R | |
| LL | U | E | S | T | F | A | | E | N | C | I | L |
| | | D | | R | | CH | | CH | | A | | O |
| O | E | L | I | O | | A | B | E | R | TH | O | L |
| E | | Y | | E | | O | | L | | O | | |
| S | Y | M | U | D | O | L | | U | N | D | E | B |

# tafod elái

*GOLYGYDD*
*Penri Williams*
*029 20890040*

*HYSBYSEBION*
*David Knight 029 20891353*

*CYHOEDDUSRWYDD*
*Colin Williams*
*029 20890979*

Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Ebrill
i gyrraedd erbyn
25 Mawrth 2016

**Y Golygydd**
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
e-bost
pentyrch@tafelai.net

*Tafod Elái ar y wê*
**http://www.tafelai.net**

*Argraffwyr:*
**Gwasg Morgannwg**
**Castell Nedd SA10 7DR**
**Ffôn: 01792 815152**

*Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru*



**Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro**

**Andrew Reeves**

**Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes**

**Ffoniwch**

**Andrew Reeves**
**01443 407442**
**neu**
**07956 024930**

**I gael pris am unrhyw waith addurno**




## CLWB Y DWRLYN

**Ffilmiau Hanes Clwb y Dwrlyn**

**8.00yh Nos Iau 24 Mawrth**

**Yng Nghlwb Rygbi Pentyrch**

Manylion: 029 20890040

## MERCHED Y WAWR
*Cangen Tonysguboriau*

**Pryd i Ddathlu**
**Gwŷl ein Nawddsant**

**Mawrth 16eg**
**Yn y Boar's Head**
Rhagor o fanylion:
01443 202093 / 01443 203729

## MERCHED Y WAWR
*Cangen y Garth*

**'Dathlu Dewi'**
**yng Nghapel y Tabernacl,**
**Efail Isaf**
**- adloniant amrywiol ynghyd â lluniaeth ysgafn.**
**Nos Fercher y 9fed o Fawrth**
**am 8yh**
**Dewch yn llu i gefnogi!**

**Manylion: 029 20890770**

## Bore Coffi i'r dysgwyr
**yng Nghaffi Leekes, Tonysguboriau,**
**bob dydd Gwener am 11 y bore.**
**Croeso cynnes i chi ymuno â'r criw.**

## Eisteddfod y Dysgwyr
**7:00yh Nos Wener, 18 Mawrth**
**Yng Nghanolfan Gartholwg,**
**Pentre'r Eglwys**
**Croeso i bawb!**
**01443 483 600**

## CYLCH CADWGAN

Yr Athro E WYN JAMES
yn siarad ar y testun:
'William Williams Pantycelyn, Ann Griffiths a Llenyddiaeth y Mudiad Cenhadol'

Nos Wener 11 Mawrth 2016
am 8.00pm.
yn Y Ganolfan, Tabernacl, Efail Isaf
Cydnabyddir cefnogaeth Llenyddiaeth Cymru

## Apêl am gyfraniadau i gofio hanes y genedl

Mae'n ganrif ers y Rhyfel Mawr ac mae gymaint o'n treftadaeth heddwch ac effaith y rhyfel ar Gymru eto i'w ddatgelu. Ond ni ddaw'r hanes yma i'r fei oni bai am ymdrechion unigolion, teuluoedd a grwpiau cymunedol wrth wirfoddoli i ymchwilio a chyflwyno'r hanes. Yn aml ceir gwraidd hanes diddorol yn y papur bro neu gan y gymdeithas hanes lleol. Nawr dychmygwch werth yr ymdrech o gasglu'r holl ymchwil yma ynghyd fel cenedl, gan sicrhau ei fod ar gael yn ddigidol ar ffurf hanesion a delweddau (wedi eu sganio gyda chymorth Casgliad y Werin). Dyma'r ysgogiad tu ôl i brosiect Cymru dros Heddwch. Ond dim ond tair blynedd sydd gennym bellach i gasglu'r holl 'hanesion cudd' yma. Hanesion all fod yn gyfarwydd i chi efallai ond, heb gymorth gennych i chwilota ac i rannu, a allai fynd yn angof i'r cenedlaethau i ddod. Gall fod yn hanes effaith rhyfeloedd y ganrif ddiwethaf ar eich cymuned, hanes gwrthwynebwyr cydwybodol lleol, cyfraniad eich bro i ŵyl neu ymgyrch heddwch, ymdrechion mudiadau lleol, neu lenyddiaeth a chelf yn dehongli agweddau o anghydfod/heddwch.

I gynnwys eich ymchwil yn y darlun mawr cenedlaethol, a fyddech mor garedig a chysylltu â www.cymrudrosheddwch.org neu hannahuws@wcia.org.uk am daflen 'Hanesion Cudd/Hidden Histories', neu galwch 01248 672104 os am sgwrs cyn dechrau arni.

O gofio cyfraniad papurau bro fel ystorfa o hanes lleol yr ardal, mawr yw ein diolch rhagflaen,
Cofion
Hanna a Ffion
Cydlynwyr Cymunedol Cymru dros Heddwch

# Colofn Blasus a Iachus

**Eluned Dvies-Scott**

Dyma ddau ryseit addas ar gyfer mis dathlu ein Nawddsant. Mwynewch bastai (neu 'quiche' i'r bobl 'posh') sy'n llawn maeth ac yn llai o galoriau nag un draddiodiadol. Mae'r ryseit Teisen Lap wedi cael ei 'fenthyg' oddiwrth Nan Humphreys, fy nghyn-athrawes Gwyddor Tŷ yn Ysgol Uwchradd Llanfyllin.



## Pastai Cennin

1 cenhinen 1 sialotsen
8 sprigyn teim 10g 'menyn
60g ham (opsiynol)
200g brocoli porffor (sprouting)
1 llwy fwrdd olew
3-4 taflen crwst ffilo 3 wy
300ml llaeth hanner sgim
75g caws Cheddar wedi ei gratio
Tun quiche 26cm / 10"

Ffwrn 'mlaen ar 180◦C/ Nwy 4 Irwch y tun quiche gyda olew
Paratowch y cennin a'r sialotsen gan eu sleisio'n fan. Cymerwch y dail oddi ar y teim. Torrwch yr ham yn ddarnau.
Toddwch y menyn a choginiwch y cennin, sialotsen a hanner y teim am 5 munud.
Torrwch y broccoli yn ddarnau a rhowch mewn dwr berwedig a'u coginio am 3 munud ac yna eu draenio'n dda.
Rhowch y crwst ffilo mewn haenau yn y tun gan eu brwsio gyda olew a gweddill y teim coginiwch am 3-5 munud.
Cymysgwch y broccoli a'r ham gyda'r cennin cyn eu rhoi yn y crwst.
Curwch y wyau a'r llaeth a ¾ y caws cyn eu rhoi dros y llysiau. Rhowch gweddill y caws ar wyneb y quiche cyn ei pobi am 25-30 munud. Gadewch yn y tun am 15 munud.




## Teisen Lap

150g menyn meddal
150g blawd S.R.
150g siwgr man
1/2 llwy de nytmeg
2 wy mawr
75g ffrwyth cymysg sych neu sylantas
50g almonau wedi'u malu (ground)
Tun cacen tua 10"x7"
Papur memrwn.

1. Paratowch y tun
2. Ffwrn ymlaen 180◦/ nwy 4
3. Rhowch y menyn a'r siwgr mewn bowlen a curwch yn dda.
5. Curwch yr wyau yna ychwanegwch i'r cymysgedd bob yn dipyn
6. Ychwanegwch y blawd a'r nytmeg a'u cymysgu mewn yn ysgafn
7. Ychwanegwch y ffrwyth
8. Rhowch y cymysgedd mewn tun a'i coginio am tua 35-45 munud

# EDWARD SNOWDEN A'R HEDDLU CUDD YN YSBRYDOLI NOFEL NEWYDD GARETH MILES




Straeon am swyddogion yr heddlu cudd Prydeinig yn ymdreiddio i fudiadau radicalaidd drwy gymryd arnynt arddel yr un daliadau — a rhai'n cael perthynas rywiol ac emosiynol glos gyda merched o'r mudiadau a dargedwyd, ac yn magu teuluoedd gyda hwy — sydd wedi ysbrydoli nofel newydd Gareth Miles, Cuddwas.

Dilyna'r nofel hanes Elwyn Lloyd-Williams, a fagwyd ar aelwyd barchus a gwladgarol yn Radur, ger Caerdydd, yn fab i ŵr busnes llwyddiannus. Er mwyn osgoi swydd ddiflas yn un o gwmniau ei dad, ymuna'r Cymro ifanc â'r Metropolitan Police Service. Manteisia hwythau ar ei ddoniau creadigol drwy ei ddyrchafu'n gyflym trwy rengoedd rhai o'u hasiantaethau 'cudd'.

Fe'i arweinir gan droeon ei yrfa i blith gangsteriaid y 'Costa del Crime' yn ne Sbaen, at genedlaetholwyr milwriaethus yng Ngwlad y Basg ac at rai diniweitiach yng Ngwynedd. Mae Elwyn yn byw sawl bywyd ac yn guddwas meistrolgar wrth ei grefft. Ond a fydd yn llwyddo i gadw'i wahanol fywydau ar wahan ynteu a fydd goblygiadau ei weithredoedd o'r gorffennol yn bygwth ei ddyfodol?

'Mae cuddwas ac awdur ffuglen yn debyg i'w gilydd,' eglura Gareth Miles. 'Ill dau'n creu cymeriadau ac yn llunio straeon am y cymeriadau hynny — a'r cuddwas yn mynd ymhellach na hynny drwy actio'r cymeriad a greodd ar lwyfan y byd go iawn.'

Ysbrydolwyd yr awdur yn wreiddiol gan erthyglau am weithgareddau'r heddlu cudd Prydeinig a ymddangosodd ym mhapurau'r Morning Star a'r Guardian rhyw ddwy neu dair blynedd yn ôl, yn ogystal a chyfrol ddadlennol ar y pwnc.

'Mae llai o sôn am guddweision yn cysgu gyda'u targedau, yn eu beichiogi ac yn eu priodi, er y gallwn fod yn saff fod hynny'n mynd rhagddo hefyd,' meddai'r awdur.

Daw cyhoeddi'r nofel ar gyfnod gwleidyddol tyngedfennol ynglyn â'r cwestiwn o breifatrwydd, diogelwch a chyfrinachedd yn dilyn datgeliadau Edward Snowden a WikiLeaks, pan arweinir rhywun i gredu eu bod "nhw" yn gwybod popeth am bob un ohonom. Prif amcan Gareth wrth ysgrifennu ei nofel ddiweddaraf oedd 'dangos sut Gymru a sut fyd yr ydym yn byw ynddynt. Gobeithio hefyd ei bod yn ddrych y gwêl rhai o fy nghyd-wladwyr eu hunain ynddo.'

Dyma nofel gyfoes ffraeth, graff a gafaelgar gan awdur Cymru ar Wasgar a Treffin.

Cuddwas - Gwasg y Lolfa - £8.99

## Hogia ni – Yma o hyd

**gan Meic Povey**



Yn nhafarn yr Alexandria, Caernarfon ar ddiwedd 2014, yn dilyn ymadawiad terfynnol byddinoedd Ei Mawrhydi o dalaith Helmand, Affganistan, daw tri o gyn-filwyr at ei gilydd i hel atgofion. Ar yr wyneb, mae Iwan Jones, Diane Taylor a Telor Roberts yn byw bywydau 'normal' erbyn hyn, yn rhan eto o gymdeithas war.

Ond o dipyn i beth daw hi'n amlwg fod hynny ymhell o'r gwir, ac nad ydi profiadau hunllefus maes y gad byth yn eich gadael o ddifri'. Sylweddolant fod geiriau Plato – "dim ond y meirw welodd ddiwedd i ryfel" – mor berthnasol ag erioed, a fod y rhyfel 'personol' maent yn ymhel ag o o ddydd i ddydd mewn peryg o'u llorio'. Chapter Caerdydd, 22 - 24 Mawrth am 8yh. Tocynnau: 02920304400

# Ysgol Pont-Sion-Norton



**Cwis Llyfrau**
Bu criw o flwyddyn 3 a 4 yn brysur yn darllen ac astudio'r llyfr Tudur Budr 'Sgrech!' ar gyfer y cwis llyfrau. Rhaid nawr symud ymlaen at y llyfr nesaf a pharatoi drama- pob lwc i bawb!

**Jambori yr Urdd**
Cafodd blwyddyn 3 a 4 lawer o hwyl a sbri gyda Martyn Geraint a'r band yn y Jambori yn y Ddraenen Wen. Roedd hyd yn oed yr athrawon wedi ymuno yn y dawnsio a'r canu!!

**Cogurdd**
Diolch i bawb a drefnodd rownd gynta'r Cogurdd yn yr ysgol. Cafwyd diwrnod llawn o baratoi'r Saladau Groegaidd a bu'r beirniaid wrth eu boddau yn blasu! Pob lwc i'r criw yn y rownd nesaf.

**Archfarchnad**
Thema blwyddyn 1 a 2 yw 'Archfarchnad' a braf oedd cael Tony o Tesco yn siarad â'r plant am y bwydydd gwahanol a chael cyfle i flasu hefyd. Diolch i Tesco am y nwyddau.

**Eisteddfod Ysgol**
Llongyfarchiadau i bawb a gystadlodd yn y diwrnod llawn canu ac adrodd. Pob lwc i bawb yn yr Eisteddfod Gylch.



**Cardiau Nadolig**
Diolch i bawb a fu'n helpu'r Cyngor Eco wrth gasglu cardiau Nadolig i'w hailgylchu ar gyfer cystadleuaeth y Sir. Croesi bysedd yn awr a gobeithio bydd 30 bag yn ddigon i ennill!

# Ysgol Evan James

**Pêl-rwyd**
Llongyfarchiadau i ferched a bechgyn tîm pêl-rwyd yr ysgol am drio ei gorau glas yn nhwrnament yr Urdd ar y 14eg o Ionawr, yng nghanolfan y Rhondda Fach.

**Tripiau**
Roedd dosbarthiadau Jac y Jwc a Sali Mali wedi mwynhau mas draw yn y Lido ym Mhontypridd yn arbrofi i weld os oedd eu cychod yn suddo neu'n arnofio yn y pwll.

**Codi arian**
Cafwyd dathliad mawr yn Ysgol Evan James ar yr ail ar hugain o Ionawr yn codi arian ar gyfer yr Eisteddfod. Pawb wedi gwisgo mewn goch, gwyn a gwyrdd.

**Jambori yr Urdd**
Roedd Blynyddoedd 3 a 4 ac aelodau staff yr ysgol wedi joio yn Jambori yr Urdd gyda Martyn Geraint.

**Caffi Mathemateg**
Trefnwyd Caffi Mathemateg ar 8fed 9fed 10fed o Chwefror ac roedd rhieni a phlant Derbyn a blynyddoedd 1 a 2 wedi mwynhau.

**Ymwelwyr**
Daeth Tony o archfarchnad Tesco i'r ysgol i bobi bara gyda blwyddyn 1 a chawsom gyfle i flasu bara o wledydd y byd. Blasus iawn!

Roedd yn ddiwrnod cyffrous iawn yn Ysgol Evan James ar yr 8fed o Chwefror gyda chwmni 'Into Film' yn dod yn ôl i'r ysgol er mwyn darlledu'r ffilm a grëwyd gan ddisgyblion yr ysgol ynghyd â disgyblion Y Berllan Deg i ddathlu 150 mlwyddiant sefydlu'r Wladfa ym Mhatagonia!

**Diwrnod crempogau**
Roedd dosbarthiadau y blynyddoedd cynnar wedi bod yn brysur yn coginio crempogau. Roedd y plant wedi dathlu a mwynhau y diwrnod.

**Eisteddfod Ysgol Evan James**
Cafwyd perfformiadau arbennig yn Eisteddfod yr ysgol a'r disgyblion yn mwynhau canu ac adrodd yn yr ŵyl. Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i'r beirniad Mrs Delyth Blainey.

**Cwis Llyfrau**
Llongyfarchiadau i dîm y cwis lyfrau blynnyddoedd 3 a 4 a wnaeth gymryd rhan yn y cwis ar yr unfed ar ddeg o Chwefror yn trafod anturiaethau 'Clem a bwgan y sioe'.



Gweithgarwch Cogurdd








Arbrofi yn y Lido



Hwyl yr Urdd



## Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant



**Diwrnod Diogelwch ar y Rhyngrwyd**
Dathlwyd Diwrnod Diogelwch ar y Rhyngrwyd ddydd Mawrth y 9fed o Chwefror. Paratodd y Criw Digidol waith cartref i'r holl blant a bu iddynt gyflwyno gwasanaeth i'r ysgol gyfan. Diolchwn hefyd i PC Evans am ddod i drafod â Blwyddyn 3 a 4.



**Y Cwis Llyfrau Cymraeg**
Ar yr 11eg o Chwefror fe aeth Caitlin Richards, Alys Thomas, Caitlyn Lloyd a Gwenno Roberts i Nantgarw er mwyn cynrychioli'r ysgol yn y gystadleuaeth Cwis Llyfrau. Fe ddarllenon nhw gyfres o storiau byrion ar y teitl "Henri Helynt yn Canu Roc" a'u tasg yn ystod y gystadleuaeth, oedd cynnal trafodaeth deng munud yn seiliedig ar y llyfr. Roeddynt yn griw brwdfrydig iawn a diolch yn fawr iddynt am yr holl waith paratoi. Da iawn chi ferched.

**Gwylio adar!**
Fe fu clwb garddio'r Cyfnod Sylfaen yn gwylio adar yng ngardd yr ysgol, fel rhan o ymgyrch yr RSPB yn ddiweddar. Roedd y plant wrth eu boddau pan welson nhw amrywiaeth hyfryd o adar, gan gynnwys mwyalchen a sgrech y coed.

**Eisteddfod yr ysgol**
Ddydd Gwener y 12fed o Chwefror, fe gynhaliwyd eisteddfod yr ysgol pan gafodd criw da o ddisgyblion y cyfle i gystadlu mewn cystadlaethau'n amrywio o ganu i lefaru ac o unawd piano i ddawnsio! Ein beirniaid gwadd eleni oedd Mrs Siw Thomas a Mrs Sian Davies a diolch yn fawr iddynt am eu gwaith. Enillydd y gadair oedd Caitlyn Richards, am gerdd ar y teitl "Gofod". Pob lwc i bawb fydd yn mynd ymlaen i gystadlu yn yr Eisteddfod Gylch, cyn hir.







**Llwyddiant gymnasteg**



Llongyfarchiadau mawr i Olivia Williams a Lili Hopkins ar ennill medal efydd yng nghystadleuaeth gymnasteg yr Urdd yn Aberystwyth ar y degfed o Chwefror. Llongyfarchiadau mawr i'r ddwy.



## Ysgol Gynradd Gymraeg Garth Olwg

**Mr Urdd**
Diolch yn fawr iawn i'r plant am ddod i'r ysgol mewn gwisg coch, gwyn a gwyrdd. Fe gasglon ni £219 ar gyfer apel Eisteddfod Pen y Bont.



**Nofio yr Urdd**
Llongyfarchiadau i Evan Leach, daeth yn drydydd yng Ngala Nofio Cenedlaethol yr Urdd.



**Sain Ffagan**
Aeth Blwyddyn 1 a 2 i ymweld â Sain Ffagan yn ddiweddar. Diben y trip oedd i ymweld â Siop Gwalia a chymharu'r siop gyda'r archfarchnad leol.

**Aberdar**
Eto eleni, mwynheuodd aelodau côr yr ysgol benwythnos ym mharc Gwledig Aberdâr. Cawsant sawl ymarfer a digon o gyfle i fwynhau yn y parc, ac wrth gwrs yn y caffi. Diolch i Mrs Howard am drefnu'r trip ac i'r staff eraill a ddaeth i helpu.

**Mrs Wall a Mr Watkins**
Diolch yn fawr i Mrs Wall a Mr Watkins a ddaeth i siarad gyda disgyblion 3 a 4 am hanes yr ardal leol. Dysgodd y plant am hanes yr ardal a faint mae'r ardal wedi datblygu dros y blynyddoedd.

**Jambori**
Mwynheuodd blwyddyn 3 a 4 bore o ganu a dawnsio yn Jambori yr Urdd yn y Ddraenwen Wen. Diolch i'r staff am fynd â ni!

Parc Gwledig Aberdâr



# Ysgol Dolau

**Cyngerdd Brenhinol**
Llongyfarchiadau i Charlotte Kwok am ei pherfformiad anhygoel yng nghyngerdd y Coleg Cerdd a Drama ym Mhalas Buckingham. Unwaith eto welon ni Charlotte yn rhoi perfformiad arbennig– un o sêr y gyngerdd. Ar ddiwedd y gyngerdd roedd Tywysog Charles yn awyddus i gwrdd â Charlotte a'i rhieni, yn holi am ei thalentau fel pianydd ifanc hyd yn hyn.

**Brasil**
Fel rhan o brosiect Cysylltu Dosbarthiadau a ariannwyd gan y Cyngor Prydeinig croesawodd Ysgol Dolau athrawon o Sao Paulo, Brasil i'r ysgol. Buon gyda ni yn ystod yr wythnos gan ddechrau gyda gwasanaeth croeso pryd rhoddwyd a derbyniwyd anrhegion ac yna ymweliadau â'r dosbarthiadau yn ystod y dydd. Mwynheuon weld sut roedd y plant ieuengaf yn dysgu ac yna roedd gan y plant hŷn lawer o gwestiynau am eu gwlad a diwylliant nhw. Ymweliad llwyddiannus i rannu ein diwylliant a chryfhau'r bartneriaeth ymhellach.

**Techniquest**
Fel rhan o'u thema Y Gofod cafodd disgyblion blwyddyn 5 a 6 cyfle i ddatrys posau a phroblemau gydag offer a citiau o Techniquest.

**Pwll Mawr**
Mwynheuodd disgyblion blwyddyn 3 a 4 eu ymweliad i Bwll Mawr, Blaenavon fel rhan o'u thema dosbarth. Cawson ddiwrnod gwych yn dysgu am yr olwyn fawr, sut roedd y glowyr yn golchi ac wrth gwrs, taith o dan ddaear i weld sut oedd bywyd glowr lawr yn y pwll.

**Rygbi**
Da iawn i'r tîm rygbi am gystadlu yng nghystadleuaeth yr Urdd. Chwaraeodd y tîm yn dda iawn gyda nifer o berfformaiadau gwych a sawl cais wedi'i sgorio yn ystod y gystadleuaeth.

**Gwyddoniaeth**
Mae disgyblion blwyddyn 1 a 2 wrth eu boddau yn mynychu'r clwb gwyddoniaeth 'Mad Science'. Maent yn mwynhau creu a dysgu am ddefnyddiau gwahanol a chawson hwyl wrth arbofi ac ymchwilio gyda sleim a swigod yn ystod y clwb cyntaf.



Clwb Gwyddoniaeth

# Ysgol Gyfun Garth Olwg

**Gala Nofio Cenedlaethol yr Urdd**
Bu disgyblion Garth Olwg yng Ngala Nofio Cenedlaethol yr Urdd yng Nghaerdydd ar ddiwedd mis Ionawr lle cawsant lwyddiant ysgubol. Dyma'r canlyniadau:
Broga 100m i Fechgyn Blwyddyn 9 a 10 - Gwobr Arian - James Hobbs Bl 9
Dull Cymysg 200m i fechgyn bl 7 a 8 - Gwobr Arian - Carwyn Salmon Bl 7
Rasys cyfnewid rhydd a'r ras cyfnewid cymysg i fechgyn Bl 7 a 8 - 2 wobr Aur - Owen Leach, Dewi Hobbs, Carwyn Salmon ac Isaac Chadwick
Ras Cyfnewid Cymysg i Ferched - Gwobr Efydd
Grace Postlethwaite, Lowri Horscroft-Preest, Bethan Horscroft-Preest ac Amy Freegard

**Llwyddiannau Pêl-rwyd**
Llongyfarchiadau i Georgia Jenkins ac Emily Poole sydd wedi cael eu dewis i gynrychioli Cymru o dan 17 yn nhwrnamaint Pêl-rwyd Ewrop yn Gibraltar ym mis Mawrth. Llongyfarchiadau hefyd i Gwenno Iolo Davies sydd wedi ei dewis fel eilydd. Pob lwc ferched.

**Canlyniadau pêl-rwyd**
Blwyddyn 7: 3-0 Cwm Rhymni
Blwyddyn 8: 6-3 Cwm Rhymni
Blwyddyn 9: 3-4 Cwm Rhymni
Blwyddyn 7: 9-0 Llanhari
Blwyddyn 8: 4-4 Llanhari
Blwyddyn 10: 10-15 Llanhari

**Canlyniadau pêl-droed**
Merched blynyddoedd 7-10: 7 – 1 Cardinal Newman

**Mwy o lwyddiant i Freya Williams**
Mae Freya Williams Bl.8 wedi cael ei dewis i chwarae i dîm pêl-fasged merched Cymru o dan 16 ym mhencampwriaeth Ewropeaidd FIBA a fydd yn cael ei chynnal yn Andorra ym mis Gorffennaf. Llongyfarchiadau Freya a phob lwc!

**Ysgoloriaeth John Tree**
Enillodd Elis Widgery Bl.13 Ysgoloriaeth John Tree, Côr Meibion Pontypridd mewn cystadleuaeth yng nghanol mis Chwefror. John Tree oedd Cadeirydd y Côr am nifer o flynyddoedd; sefydlodd yr Ysgoloriaeth hon 25 mlynedd yn ôl i wobrwyo cerddor ifanc mwyaf addawol ysgolion Pontypridd. Mae pob ysgol a'r Coleg yn Nantgarw yn enwebu disgybl i'w cynrychioli yn y gystadleuaeth.



Ymweliad Pwll Mawr




Perfformiodd Elis ar y gitâr a bydd yn perfformio yng nghyngerdd flynyddol y Côr yn Eglwys St Dyfrig, Trefforest nos Sadwrn y 12fed o Fawrth.

**Dydd Miwsig Cymru**
I ddathlu Dydd Miwsig Cymru daeth Mei Gwynedd, cerddor enwog a fu mewn bandiau llwyddiannus megis Big Leaves a'r Sibrydion, i'r ysgol i gynnal gweithdy. Bu'n gweithio gyda 15 disgybl o flynyddoedd 7-9 sy'n canu offerynnau roc ac yn mynychu'r clwb gitâr. Gyda chymorth Mei, cyfansoddodd y disgyblion gân a chafodd ei pherfformio i flwyddyn 7 ar ddiwedd y dydd. Roedd y gân yn wych ac roedd y disgyblion wedi dysgu llawer yn gweithio gyda Mei Gwynedd.



**Y Gemau Gwyllt**
Cafodd 12 o ddisgyblion blwyddyn 9 gyfweliadau ar gyfer rhaglen deledu newydd ar gyfer Boom Plant o'r enw Y Gemau Gwyllt. Cystadleuaeth antur awyr agored i ddarganfod pobl ifanc fwyaf mentrus, penderfynol a dewr yng Nghymru yw'r Gemau Gwyllt. Roedd yn rhaid i'r disgyblion wneud gweithgareddau tîm a chymorth cyntaf yn ogystal â siarad am eu hunain er mwyn gweld pwy fyddai'n cael eu dewis. Y 3 disgybl llwyddiannus a fydd yn cystadlu fel tîm ar ran yr ysgol ym Mlaenau Ffestiniog yn y misoedd nesaf yw Thomas Stevens, Ffion Thomas, Millie Paulo-Smith a dewiswyd Josh Karadogan fel eilydd. Pob lwc iddynt!



# Ysgol Llanhari

**Eisteddfod Ysgol Llanhari**

Llongyfarchiadau i holl ddisgyblion a staff Ysgol Llanhari am ddiwrnod gwych o gystadlu yn Eisteddfod yr Ysgol a gynhaliwyd cyn hanner tymor. Bu sawl llys ar y blaen yn ystod y dydd ond Trisant a orfu ar ddiwedd diwrnod brwd o gystadlu a hynny o un pwynt yn unig. Teg dweud bod llys Hari yn siomedig dros ben i golli o un pwynt yn unig!

Am y bedwaredd flwyddyn yn olynol, bardd cadair CA4 a CA5 oedd Gwynfor Dafydd o flwyddyn 13. Am y tro cyntaf erioed cyflwynwyd cystadleuaeth y gadair i ddisgyblion CA3. Llongyfarchiadau gwresog i Joseff Kirkman ar ei fuddugoliaeth. Cyflwynwyd cadeiriau hardd wedi eu creu gan Mr Alun Evans o'r Adran Dechnoleg i'r ddau ohonynt i ddathlu eu camp. Ymfalchiwn yn ogystal bod disgyblion o'r Cyfnod Sylfaen wedi ymuno i gyfarch y llenorion buddugol â dawns werin draddodiadol.

Enillwyd y tlws newydd am y perfformiad gorau ar y llwyfan gan gôr merched Trisant. Fe'u hyfforddwyd hwy gan tair merch o flwyddyn 12 sef Alys, Carys ac Angharad.

Hyfryd unwaith eto oedd croesawu dau gyn-bennaeth sef Mr Meirion Stephens a Mr Peter Griffiths ynghyd â chyn aelod o staff Ms Angharad Jones i feirniadu ar ddiwrnod yr Eisteddfod ac roeddem yn falch dros ben bod Mr Huw V Hughes wedi beirniadu cystadleuaeth y Gadair ac wedi gallu ymuno â ni i draddodi ei feirniadaeth mewn seremoni urddasol iawn. Bu'n ddiwrnod arbennig iawn!









Joseff Kirkman a Gwynfor Dafydd gyda'r Pennaeth, Mrs Rhian Phillips

















# Ieuenctid Pontypridd - llwyddiant trwy ymdrech…



Yr her fwyaf i dîm rygbi Ieuenctid Pontypridd y tymor hwn yw chwarae gemau, heb son am eu hennill neu eu colli.

Bu cyfnodau hir o'r tymor, yn enwedig drwy fisoedd Tachwedd a Rhagfyr pan na allai'r Ieuenctid chwarae gêm o un wythnos i'r llall. Roedd y tywydd enbyd wrth gwrs yn amharu ar gymhwyster y meysydd, ond problem arall oedd bod clybiau eraill yn methu codi timau i wrthwynebu Pontypridd. Mae hyn yn sicr yn bwnc y dylai Undeb Rygbi Cymru ei drafod, ac i adolygu strwythur y gêm genedlaethol islaw'r rhanbarthau proffesiynol.

Er gwaethaf y cyfnodau hir heb chwarae, mae'r tymor wedi bod yn un llwyddiannus i Bontypridd hyd yn hyn. Mae'r tîm ar hyn o bryd ar frig tabl Cynghrair 'A' y Gleision, wedi chwarae chwe gêm ac wedi ennill chwech. Ponty enillodd y gynghrair y tymor diwethaf, ynghyd ag ennill y Cwpan Cenedlaethol a Chwpan Taf - Rhondda.

Mae Pontypridd eisioes wedi cyrraedd rownd derfynol Cwpan Taf - Rhondda, gan sicrhau buddugoliaethau clodwiw oddi cartref yn erbyn Beddau a Phenygraig. Yr un siom fawr i Ieuenctid Pontypridd y tymor hwn fu'r methiant i ddal gafael ar y Cwpan Cenedlaethol. Yn y rownd derfynol llynedd roedd Ponty yn fuddugoliaethus yn erbyn Penallta, ond y tîm hwnnw dalodd y pwyth yn ôl yn yr ail rownd eleni, gan ennill ar eu tomen eu hunain.

Dyna'r unig gêm i Bontypridd ei cholli drwy gydol y tymor, ac ni fu'n fanteisiol eu bod heb chwarae gêm am fis cyfan cyn herio Penallta.

Dangosodd carfan Pontypridd eu potensial wrth fynd ben ben a thîm Academi Bryste oddi cartref ar y 9fed o Chwefror. Roedd tîm cryf, corfforol iawn gan Fryste, ond ar ôl ildio pwyntiau cynta'r gêm, tarodd Ponty yn ôl i hawlio buddugoliaeth arwrol o 7 pwynt i 37.

Mae llwyddiant carfan ifanc Pontypridd yn fwy o gamp fyth wrth ystyried fod newidiadau mawr wedi bod dros yr haf, gyda bechgyn dibrofiad yn camu fyny o rengoedd y tîm dan un-ar-bymtheg. Dan arweiniad craff yr hyfforddwyr Simon Bayliss ac Andy Price, a'r capten newydd, y mewnwr Greg Mogford, mae Ieuenctid Pontypridd yn parhau i ddatblygu ac i brofi llwyddiant.

# Creche Newydd



Ddydd Sadwrn, Chwefror y 6ed, agorwyd Creche newydd Mudiad Meithrin yng nghanolfan yr Hen Lyfrgell, Caerdydd.

Er efallai fod Caerdydd yn bell i rai ohonoch, credai'r Mudiad bod hwn yn adnodd arbennig i bawb o bobl Cymru sydd yn ymweld â Chaerdydd adegau rygbi, i siopa neu wrth ymweld â theuluoedd.





